

# **Ymchwiliad Llifogydd Adran 19**

## **Chwefror 2020 – Storm Jorge**

## **Ffordd Sully Moors, Bro Morgannwg**

**Fersiwn 3**

**Mawrth 2023**

**[www.jbaconsulting.com](http://www.jbaconsulting.com)**

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad yma wedi ei gynhyrchu yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd ar Gyngor Bro Morgannwg (CBM) dan Adran 19 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'r Ddeddf yn nodi, "Wrth ddod yn ymwybodol o lifogydd yn ei ardal, mae rhaid i'r awdurdod llifogydd lleol (ALL), i'r graddau y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol neu'n briodol, ymchwilio:

- a) pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau rheoli risg llifogydd perthnasol a
- b) a yw pob un o'r awdurdodau rheoli risg hynny wedi arfer neu'n bwriadu arfer y swyddogaethau hynny mewn ymateb i'r llifogydd " ".

Mae'r ymchwiliad Adran 19 yma yn darparu adroddiad ffeithiol o'r digwyddiad storm a ddigwyddodd ar yr 28ain a'r 29ain o Chwefror 2020 a'r llifogydd a ddigwyddodd ar Ffordd Sully Moors, Penarth, Bro Morgannwg, De Cymru ô'r 29ain Chwefror i'r 2il o Fawrth fel canlyniad. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar yr ardal sydd wedi'w leoli ar y ffyrdd a thir o amgylch Sully Brook, Sully Drain, ac Afon Tregatwg i'r gogledd-orllewin o Sili.

Mae'r adroddiad dadansoddi data yn nodi, oherwydd cyfres o ddigwyddiadau storm a ddigwyddodd yn ystod mis Chwefror 2020, bod priddoedd eisoes yn dirlawn cyn y glaw ar yr 28ain a'r 29ain o Chwefror 2020. Yn ystod Chwefror 2020 cafodd y DU ei tharo gan dair storm wedi'w henwi yn olynol mewn cyfnod byr, a ddaeth a chyfnodau hir o law trwm a llifogydd eang ledled Cymru a Lloegr. Golygir hyn bod ardal Ffordd Sully Moors eisoes wedi profi glaw trwm iawn cyn dechreuad y digwyddiad storm dan sylw (Storm Jorge 28-29 Chwefror).

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr adroddiad yma yn dangos mae achos y llifogydd oedd canlyniad glaw trwm ynghyd a lefelau dwr uchel oedd eisoes yn y Sully Brook, Sully Drain, ac Afon Tregatwg, yn ogystal a bod draeniad priffyrdd a systemau carthffosiaeth dwr wyneb wedi'w cloi yn hydrolig ac yn methu allyru, gan arwain at lifogydd ar Ffordd Sully Moors ac ardaloedd cyfagos.

Mae argymhellion allweddol o'r adroddiad yma'n cynnwys:

- Adolygu gweithredoedd ac amledd cynnal a chadw ar gyfer Sully Brook, Sully Drain, ac Afon Tregatwg.
- Ystyried opsiynau dalgyrch yn bellach er mwyn lleihau y risg llifogydd dŵr wyneb i Ffordd Hayes
- Ymchwilio dichonoldeb o gynyddu amledd presennol glanhau system ddraenio priffyrdd Ffordd Sully Moors
- Cyswllt rhwng CBM a CNC ar yr ardaloedd o bryder o fewn dalgyrch Tregatwg.

